Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Hybu Cig Cymru

Medi 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Hybu Cig Cymru

Medi 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Roedd Hefin David AS yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Gyda thristwch mawr, bu farw ar 12 Awst 2025.



**Hefin David AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ..... 5**

**Argymhellion a Casgliadau ..... 6**

**1. Cefndir ..... 9**

**2. Llywodraethu a pherchnogaeth ..... 11**

Galwadau am i HCC ddod dan berchnogaeth y diwydiant ..... 11

Cynrychiolaeth o'r diwydiant ar y bwrdd ..... 12

Strwythur llywodraethu HCC ..... 13

Dull Iwerddon ..... 15

Ein barn ni ..... 16

**3. Sefyllfa ariannol a chyllid ..... 18**

Cyllideb HCC ..... 18

Cynaliadwyedd ariannol ..... 18

Niferoedd da byw yn gostwng ..... 21

Ein barn ni ..... 23

**4. Arweinyddiaeth a morâl y staff ..... 25**

Problemau gydag arweinyddiaeth ..... 25

Effeithiwyd ar forâl staff ond mae'r sefyllfa yn gwella ..... 26

Ein barn ni ..... 28

**5. Cyflawni'r blaenoriaethau ..... 29**

A yw HCC yn cyflawni ei flaenoriaethau? ..... 29

Cydweithio â chyrff ardoll eraill yn y DU ..... 31

Cyswllt Ffermio ..... 33

Perthynas waith HCC â Llywodraeth Cymru ..... 34

Ein barn ni ........ 36

**6. Perthynas â thalwyr yr ardoll ........ 38**

Ymgysylltiad HCC â ffermwyr ........ 38

Ymgysylltu â phroseswyr ........ 40

Ein barn ni ........ 40

**7. Hyrwyddo cig coch ........ 42**

Effaith gwaith HCC mewn digwyddiadau ........ 42

Effaith gweithgareddau hyrwyddo ac ymgyrchoedd marchnata ........ 43

A yw HCC yn eiriolwr cryf dros y diwydiant? ........ 43

Ein barn ni ........ 45

**8. Strategaeth ar gyfer y dyfodol ........ 47**

Ein barn ni ........ 50

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 51**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 52**

Tystiolaeth ysgrifenedig ........ 52

Gwybodaeth ychwanegol ........ 52

# Rhagair y Cadeirydd

Mae ein diwydiant cig coch yn rhywbeth y gall Cymru fod yn falch iawn ohono. O farbeciws haf i rostiau traddodiadol a chiniawau swyddogol, mae cig eidion a chig oen Cymru yn cael lle blaenllaw ar blatiau ledled y byd. Mae ansawdd ein cig a lles ein hanifeiliaid o safon fyd-eang a byddwn i'n bersonol yn dadlau eu bod heb eu hail. Mae'n bwysig, felly, bod y corff sy'n gyfrifol am hyrwyddo ein cig coch yn un sydd heb ei ail hefyd.

Mae Hybu Cig Cymru wedi wynebu heriau diweddar sydd wedi bod yn tynnu sylw oddi wrth ei dasg graidd. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio archwilio'r honiadau na'r materion sydd wedi effeithio ar HCC yn ddiweddar. Yn lle hynny, gwnaethom benderfynu llunio adroddiad sy'n edrych tua'r dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gael HCC yn ôl ar y trywydd iawn ac atal problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn gwneud naw argymhelliad ac yn dod i dri chasgliad. Mae'r argymhellion yn cynnwys edrych ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad, ac o bosibl materion perchnogaeth, er mwyn cryfhau rheolaethau a sicrhau bod gan dalwyr yr ardoll ddylanwad mwy uniongyrchol dros HCC. Mae gan HCC dasg fawr ac mae'n amlwg y bydd cyllid yn her iddo yn y dyfodol, felly mae'r adroddiad hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru fwrw ati o ddifri i fynd i'r afael â'r mater hwn. Credwn fod mesur yn elfen bwysig o sicrhau bod HCC yn perfformio'n dda, felly rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd ar gynnydd.

Mae cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, newidiadau i dreth etifeddiant a'r gostyngiad posibl yn niferoedd stoc yn golygu bod hwn yn gyfnod ansicr iawn i ffermwyr. Ni all sefyll yn llonydd fod yn opsiwn i HCC. Rhaid i Fwrdd HCC a Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i ailfywiogi'r sefydliad a sicrhau ei fod yn addas i gyflawni'r rôl allweddol o gefnogi ein sector cig coch byd enwog, ac yn eu tro ein ffermwyr.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ein hargymhellion ac y bydd hyn yn adnewyddu HCC fel y gall gyflawni'r gwaith hanfodol o gefnogi un o'n diwydiannau allweddol.

**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd

# Argymhellion a Casgliadau

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llywodraethiant HCC gyda'r nod o wella cynrychiolaeth safbwyntiau'r rhai sy'n talu'r ardoll a chynyddu cyfraniad ehangach y diwydiant o fewn y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn dylai ystyried pob opsiwn, o gadw swyddi penodol ar y bwrdd ar gyfer y rhai sy'n talu'r ardoll a'r diwydiant ehangach, i ddychwelyd perchnogaeth lawn o'r sefydliad i ddwylo talwyr yr ardoll. .................... Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Mae'r pwyllgor yn cefnogi'n llwyr y defnydd parhaus o'r ardoll statudol fel dull o ariannu HCC, fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys gan HCC, yn glir nad yw incwm gan yr ardoll yn unig yn ddigonol i gwmpasu cylch gwaith a llwyth gwaith presennol y sefydliad. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu parhau i ariannu HCC neu sut y mae'n disgwyl i HCC barhau i weithredu'n ariannol.................... Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Mae'n amlwg, er mwyn i HCC gyflawni ei fandad helaeth, y bydd angen cyllid ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru a HCC archwilio pob ffordd bosibl i gynyddu cyllideb HCC, gan gynnwys nodi gwaith y gallai HCC ei wneud i ategu polisïau eraill Llywodraeth Cymru a sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau o'r fath. Ar ben hynny, dylai nodi ffynonellau ariannu eraill y gallai HCC wneud cais amdanynt, gan gynnwys grantiau, ac o bosibl darparu gwasanaethau i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynnydd mewn cyllid ar gyfer HCC ddod law yn llaw â mesurau atebolrwydd a pherfformiad gwell. .................... Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Er mwyn cefnogi gwaith cynllunio busnes ffermwyr a phroseswyr, dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar niferoedd da byw yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cefnogi gostyngiad mewn niferoedd da byw, dylai nodi'r effaith ddisgwyliedig ar y diwydiant prosesu a darparu unrhyw gymorth y gallai fod ei angen.................... Tudalen 24

**Argymhelliad 5.** Dylai HCC gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu cynnydd ar greu a chynnal diwylliant corfforaethol iach am y tair blynedd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r diwylliant yn HCC a rhoi gwybod i'r Pwyllgor hwn a'i olynydd yn y Senedd nesaf am gynnydd HCC yn y maes hwn. .................... Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Mae gan HCC gylch gwaith eang iawn, fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i HCC gyfeirio ei waith i gyd-fynd â'i gyllideb lai. Er

mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol newydd, mesuradwy a thryloyw gyda HCC. Dylai Llywodraeth Cymru fesur cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn rheolaidd, a dylai canlyniad yr adolygiad hwnnw gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n glir ac yn dryloyw i dalwyr yr ardoll a rhanddeiliaid eraill. Dylai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd gynnwys dangosyddion sy'n:

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a thalwyr yr ardoll gan gynnwys cwrdd â thalwyr yr ardoll lle y maent a sicrhau gwelededd clir a hygyrchedd staff HCC gan gynnwys uwch arweinwyr;
- Sicrhau y gwerth gorau i dalwyr yr ardoll ac unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol efallai y bydd HCC yn ei gael; a
- Sicrhau canlyniadau cryf o weithgareddau hyrwyddo sy'n cael eu mesur mewn ffordd glir ac agored. ........................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i nodi meysydd lle gallai HCC gynyddu cydweithio a/neu rannu adnoddau gyda byrddau ardoll eraill a sefydliadau datganoledig perthnasol eraill fel Cyswllt Ffermio. Dylai hyn gynnwys chwilio am feysydd lle gallant leihau dyblygu ymdrechion a manteisio ar arbedion maint posibl. Diben yr adolygiad hwn ddylai fod nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion y gellir eu hailfuddsoddi ym musnes craidd HCC o hyrwyddo cig Cymru a datblygu'r sector cig coch. Ni ddylai'r adolygiad hwn fod yn gyfyngedig o ran cwmpas a rhaid iddo ymestyn y tu hwnt i rannu gwybodaeth syml i agweddau fel caffael ar y cyd a rhannu swyddogaethau swyddfa gefn. ........................ Tudalen 37

**Argymhelliad 8.** Rhaid i HCC sicrhau ei fod yn mesur effaith gweithgareddau hyrwyddo drwy ddata pendant a chymaradwy a fydd yn dangos canlyniadau nid gweithgareddau yn unig. Un opsiwn i gyflawni hyn fyddai adeiladu ar y gwaith y mae wedi'i wneud gyda manwerthwyr ar ddefnyddio data cardiau teyrngarwch i ddeall effaith uniongyrchol ei waith. Dylid cyfleu manylion y mesuriad hwn a'r canlyniadau mewn modd clir ac agored i dalwyr yr ardoll. .................... Tudalen 45

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a HCC sicrhau bod lleisiau'r diwydiant yn cael eu cynrychioli'n dda yn eu gwaith i ddiweddaru Cytundeb Fframwaith HCC. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r diwydiant 'lle y maent' i sicrhau ei bod yn clywed pob llais, nid dim ond y rhai sydd â'r amser a'r gallu i ymgysylltu'n hawdd â Llywodraeth Cymru. ............. Tudalen 50

**Casgliad 1.** Mae diwylliant corfforaethol iach ac agored yn bwysig ar gyfer perfformiad unrhyw sefydliad, ynghyd â llesiant ei staff. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mesurau a roddwyd ar waith gan y Prif Weithredwr newydd ac o'r farn bod angen gwneud gwaith dilynol yn eu cylch a'u cynnal yn y tymor hir. Tudalen 28

**Casgliad 2.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod HCC yn gweithio gyda Byrddau Ardoll eraill mewn meysydd anghystadleuol a chyda Cyswllt Ffermio. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cynyddu'r ymdrechion hyn i wneud y mwyaf o'r effaith ar y cyd, sicrhau bod dyblygu ymdrechion yn cael ei leihau a chefnogi ymgysylltiad talwyr yr ardoll a rhanddeiliaid â HCC. Tudalen 37

**Casgliad 3.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod gwaith ar hyn ar y gweill i wella ymgysylltiad HCC â rhanddeiliaid. Rhaid i HCC gryfhau ei waith cyfathrebu ac ymgysylltu â thalwyr yr ardoll. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i HCC gwrdd â thalwyr yr ardoll lle y maent e.e. trwy fynd i arwerthiannau da byw ac yn ymweld â lladd-dai. Tudalen 41

# 1. Cefndir

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant yw Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales, sydd o dan berchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru. Mae'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.

**1.** Mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn gweithio gyda manwerthwyr, proseswyr a gweithredwyr gwasanaethau bwyd yn y DU ac mewn marchnadoedd tramor i gryfhau cyfleoedd busnes. Mae'n cynnal rhaglenni hyrwyddo ar gyfer Cig Oen Cymru â Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (Protected Geographical Indication neu PGI) a Chig Eidion Cymru â PGI. Mae HCC hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant, er mwyn cynorthwyo diwydiant cig coch Cymru i wella ansawdd, cynyddu costeffeithiolrwydd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru.

**2.** Mae HCC wedi bod drwy gyfnod cythryblus yn ddiweddar, sy'n cynnwys ymchwiliad mewnol i gyhuddiadau o fwlio, ymadawiad y Prif Weithredwr dan gwmwl, a'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'allfudiad staff'. Er bod y materion hyn yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn, gwnaeth yr Aelodau benderfyniad penodol y dylai'r ymchwiliad hwn fod yn edrych ymlaen yn hytrach na dadansoddi camau gweithredu, penderfyniadau a phrosesau adnoddau dynol blaenorol.

**3.** Y cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad oedd adolygu effeithiolrwydd HCC o ran cyflawni ei flaenoriaethau a rhoi gwerth am arian i dalwyr yr ardoll. Yn benodol, ystyriodd yr Aelodau'r meysydd canlynol:

- Perfformiad HCC o ran cyflawni ei flaenoriaethu presennol.
- Priodoldeb pwrpas, blaenoriaethau a gweithgareddau HCC ac a ddylid eu diwygio.
- Y berthynas rhwng HCC a'r sector ffermio a phrosesu/allforio cig, gan gynnwys a yw HCC yn sicrhau gwerth am arian i dalwyr yr ardoll.
- Y berthynas rhwng HCC a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a ddylai fod gan Lywodraeth Cymru mwy o rôl oruchwylio.

- Ai HCC yw’r dull mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu, hybu a marchnata cig coch o Gymru, ac ai ardoll cig coch yw’r ffordd fwyaf effeithiol o ariannu’r gwaith hwn.

# 2. Llywodraethu a pherchnogaeth

**4.** Fel y nodwyd uchod, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'r gwaith hwn ac unrhyw argymhellion yn edrych tua'r dyfodol. Mae ymdrin ag effeithiau uniongyrchol y problemau diweddar y mae'r sefydliad wedi'u hwynebu wedi'i gynnwys ym mhedwaredd bennod yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf ei bod yn bwysig bod strwythur llywodraethu HCC yn cael ei ailwampio i sicrhau na all sefyllfa debyg godi yn y dyfodol.

## Galwadau am i HCC ddod dan berchnogaeth y diwydiant

**5.** Clywodd y Pwyllgor alwadau am i HCC ddod dan berchnogaeth y diwydiant Dywedodd Dunbia y dylai HCC aros o dan reolaeth y diwydiant gan ei fod yn cael ei ariannu'n bennaf gan ardoll cig coch Cymru. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"It may also be time to consider clearly defining or possibly separating the relationship between HCC and the Welsh Government, allowing levy payers to assume greater control over any future red meat levy body."*[1]

**6.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Kepak wrth yr Aelodau fod HCC yn eiddo i'r Diwydiant (Undebau Ffermio, Awdurdod Datblygu Cymru, Cynhyrchwyr Cig Oen ag Eidion Cymru a'r Comisiwn Cig a Da Byw) yn 2003, ac nid i'r Llywodraeth, a bod y trefniant hwnnw'n gweithio'n dda.[2] Ymhelaethodd ar hyn yn y sesiwn lafar, gan ddweud:

> *"I recognise that you need experts in different fields, be that marketing or legal experts or financial experts, but I think the majority of the board should be active stakeholders, active levy payers, effectively. If my memory serves me right, in 2003, it was owned, effectively, by industry, and it changed later on to facilitate the Welsh Government providing funds for HCC. And those funds were significant. They ranged from about 35 per cent to 47 per cent of total income that came from either EU or Government money—and it wasn't just EU, but there was also 'clean money', if you see what I mean, coming in as well. That's not the case now. Perhaps it is time now for industry to go back to that. It needs to be clear and transparent in terms of*

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dunbia (Saesneg yn unig)
[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, Kepak (Saesneg yn unig)

> *ownership, in terms of who is on the board, who is leading it, so that it really has buy-in from the industry as well."*[3]

**7.** Pan ofynnodd yr Aelodau i'r Dirprwy Brif Weinidog am hyn, ymatebodd:

> *"… if it was a totally floated-off, purely levy-funded body that was divorced from Government, … we'd still be having to have meetings with them and saying, 'So, tell me, how are you contributing to the SFS then? How are you contributing to sustainability and decarbonisation? … so what's the benefit of a floated-off organisation that might feel one step divorced from Government, when I suspect this organisation will be coming back to me and saying, 'Minister, we think you've got a role to play and we think you might need to put some funding in?'"*[4]

## Cynrychiolaeth o'r diwydiant ar y bwrdd

**8.** Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr HCC yn cynnwys y Cadeirydd ynghyd â 10 aelod; gwneir penodiadau gan Weinidogion Cymru yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae cynllun busnes HCC ar gyfer 2022–2026 yn nodi "Mae'r Bwrdd yn cynrychioli talwyr ardoll ffermwyr a phroseswyr ac eraill sy'n meddu ar sgiliau sy'n berthnasol i ddatblygiad y sefydliad yn y dyfodol".[5]

**9.** Clywodd y Pwyllgor alwadau am fwy o gynrychiolaeth o'r diwydiant ar Fwrdd HCC. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Kepak wrth yr Aelodau:

> *"Since farmers and industry pay levy to HCC, it is extremely important that farmers and industry are fully represented in the HCC Board and can control/direct how that public money is spent for the benefit of all. Hence Board representation should be selected by the Industry and not by Government and chosen from active stakeholders."*[6]

**10.** Yn ei dystiolaeth lafar, ymhelaethodd Kepak ar hyn gan nodi mai'r her mewn gwirionedd yw bod angen corff ardoll sydd â thalwyr ardoll gweithredol yn llywio'r

[3] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 65
[4] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 146
[5] Cynllun Busnes ar gyfer Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales 2022-2026
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, Kepak (Saesneg yn unig)

gwaith o ran y bwrdd. Nododd fod llawer llai na hanner aelodau'r bwrdd yn talu'r ardoll ar hyn o bryd.[7]

**11.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig WLAA fod diffyg cynrychiolaeth o'r sector pwysau byw o fewn gwaith HCC ac awgrymodd y byddent yn agored i drafodaethau i sicrhau cynrychiolaeth o'r sector pwysau byw ar fwrdd HCC.[8]

**12.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau ei fod yn credu bod rhai o'r penodiadau diweddar wedi cryfhau hynny, nid yn unig gyda José Peralta, ond y ddau aelod arall o'r bwrdd a benodwyd hefyd. Nododd fod angen i'r bwrdd fod yn amrywiol iawn ac adlewyrchu gwahanol rannau o'r sectorau cig coch, ond hefyd galluoedd eraill.[9] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"So, at the moment, there are farmers; there are levy payers; there are knowledge exchange people; marketing, finance, environmental sustainability, academics. Animal health and research people are on there. It's a strong board."*[10]

**13.** Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"On the board membership, look, I've taken a strong message away, and HCC will have heard this as well, in terms of the opportunities that are coming up in the next 12 months, in terms of new appointments to the board, to make sure that some of those points around processing and other parts are reflected."*[11]

## Strwythur llywodraethu HCC

**14.** Mae'r ddau undeb ffermio wedi dadlau dros gynnal strwythur llywodraethu presennol HCC ac annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Maent hefyd o blaid rhoi mwy o ddylanwad i dalwyr yr ardoll ar benderfyniadau HCC.

**15.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau fod NFU Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod y sefydliad yn cadw rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Nododd ei bod yn hanfodol bwysig bod y sefydliad yn parhau i fod yn gwmni cyfyngedig gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr

[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraffau 15-17
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru (Saesneg yn unig)
[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 59
[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 60
[11] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 133

sydd â chynrychiolaeth gref o'r diwydiant. Ychwanegodd fod hyn yn hanfodol er mwyn iddo fod yn ddigon atebol i'r diwydiant a Gweinidogion. Nododd ei bod yn hanfodol bod cynhyrchwyr yn teimlo bod ganddynt atebolrwydd gwirioneddol o ran sut mae'r arian maent yn ei dalu drwy'r ardoll yn cael ei wario.[12] Ymhelaethodd ar hyn yn y sesiwn lafar gan ddweud:

> *"we feel quite strongly that levy payers should have a greater say in terms of the appointment process to the board. I think you could potentially even go a step further and suggest, in terms of the board, whether there should be direct representation from organisations such as ourselves and such as the processors in Wales, who represent levy payers in terms of the producer and processor sectors."*[13]

**16.** Awgrymodd FUW y dylai HCC, er ei fod yn gorff hyd braich, allu herio'n agored unrhyw bolisïau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n mynd yn groes i'w Datganiad Cenhadaeth ac amcanion strategol eu hunain, ac yn bwysicaf oll, buddiannau'r rhai sy'n talu'r ardoll.[14]

**17.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nododd HCC fod lefel cyfranogiad presennol Llywodraeth Cymru yn HCC yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng rhyddid i weithredu a goruchwyliaeth i sicrhau atebolrwydd o ran rhagolygon strategol a chyflawni amcanion o safbwynt ariannol.[15]

**18.** Dywedodd HCC fod croestoriad go iawn o'r diwydiant ar eu bwrdd, gan gynnwys ffermwyr sy'n talu'r ardoll, cynrychiolwyr o'r gadwyn gyflenwi, cynaliadwyedd, marchnata, profiad llywodraethu cryf iawn, rhywun o gefndir cwmnïau cyhoeddus cyfyngedig gyda phrofiad masnachol sylweddol.[16]

**19.** Nododd HCC yr hyn yr oeddent yn ei weld fel mantais y model perchnogaeth presennol i'r Pwyllgor:

> *"the advantages of the Welsh Government owning us, effectively there are two, in my view. One is it gives it the ability to actually support the organisation, and, two, it acts as a funnel to try to co-ordinate as a third party what could be a very different set of views and opinions,*

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru
[13] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 114
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 257

> *whether you're a processor as part of the industry or whether you are a farmer as part of the industry".*[17]

**20.** Yn ei bapur tystiolaeth dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog: "Cred Llywodraeth Cymru fod y strwythur a'r trefniadau llywodraethu presennol o ran y pwerau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u dirprwyo i HCC yn briodol ac yn effeithiol"[18].

**21.** Pan ofynnwyd iddo yn y Pwyllgor pam, os nad yw'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru mwyach, y mae angen i HCC gytuno ar ei ddangosyddion perfformiad allweddol gyda Llywodraeth Cymru, eglurodd swyddog y Dirprwy Brif Weinidog fod Bwrdd HCC yn cytuno ar y dangosyddion perfformiad allweddol yn gyntaf ac yna'n eu cyflwyno i'r Gweinidog.[19] Nododd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"… whatever model HCC has now and going forward, it's really important that they will still need to work with the grain of the policy framework that this Senedd and Welsh Government set."*[20]

## Dull Iwerddon

**22.** Clywodd y Pwyllgor lawer o safbwyntiau cadarnhaol am Bord Bia, sef Bwrdd Bwyd Iwerddon. Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid ato fel esiampl y gellid ei dilyn. Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau fod edrych ar strwythurau llywodraethu mewn gwledydd eraill yn dangos bod cyfle posibl i symud tuag at ddull tebyg i Bord Bia yng Ngweriniaeth Iwerddon. Aeth ymlaen i esbonio:

> *"Bord Bia is a semi sort of state agency, but it is very much industry led. The levy contributes to the funding there, but also the Government puts in a significant amount of funding to be able to support in terms of the marketing and promotion of Irish food and drink, as well as undertaking industry development measures on farm and in the processing sector."*[21]

**23.** Fodd bynnag, mae cylch gwaith Bord Bia yn ehangach na chylch gwaith HCC ac mae ganddo gyllideb llawer mwy. Mae Cyfrifon 2023 yn dangos bod ganddo incwm o €98 miliwn, gyda €77 miliwn yn dod o gyllid gan y llywodraeth,

[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 257
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 45
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 43
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 106

€6 miliwn o gyllid ardoll ac €11 miliwn o incwm prosiectau ac incwm arall (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r €1 filiwn agosaf).[22]

**24.** Nododd y Dirprwy Brif Weinidog fod gan Bord Bia gylch gwaith llawer ehangach a chyllideb fwy, a thynnodd sylw at y ffaith nad yw HCC yn gweithio ar ei ben ei hun yng Nghymru. Dywedodd fod ecosystem ehangach o gyrff yn gweithredu mewn sector amaethyddol unrhyw genedl. Cyfeiriodd at Cyswllt Ffermio a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru fel enghreifftiau, a gofynnodd beth fyddai gorfodi model Bord Bia ar Gymru yn ei olygu i'r sefydliadau eraill sy'n bodoli.[23]

## Ein barn ni

Mae cig eidion Cymru ac yn enwedig oen Cymru yn enwog ledled y byd. Mae ansawdd ein cig, lles ein hanifeiliaid ac ôl troed carbon is ein cynnyrch i gyd yn gryfderau y dylem ni fel cenedl fod yn falch ohonynt. Y ffactorau hyn sydd hefyd yn gwneud ein cynhyrchion cig yn rhai premiwm.

Mae angen sefydliad o'r safon uchaf i gefnogi llwyddiant y cynhyrchion hyn. Rhaid i sefydliad o'r fath fod ag arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth strategol sydd wedi'i diffinio'n glir, a hynny wedi'i phennu o lefel y bwrdd i lawr. Yn anffodus, mae'r cyfnod cythryblus diweddar yn HCC yn dangos y bu diffyg arweinyddiaeth gref. Er mwyn gwarantu bod cig coch Cymru yn elwa o gorff hyrwyddo o'r radd flaenaf, rydym yn argymell adolygiad a diwygiad trylwyr o strwythur perchnogaeth HCC a chyfansoddiad ei fwrdd.

Er ein bod yn cefnogi'r broses ardoll yn llwyr ac yn credu y dylid ei chadw, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi ei bod yn amlwg y dylai HCC fod yn eiddo i Lywodraeth Cymru. Rydym o'r farn y gallai HCC sy'n eiddo i dalwyr yr ardoll fod yn fwy ymatebol i'w hanghenion ac y gallai adlewyrchu eu dymuniadau'n well ynghylch sut mae cig coch Cymru yn cael ei hyrwyddo.

Mae llywodraethu cryf yn bwysig mewn unrhyw sefydliad, yn enwedig sefydliadau fel HCC lle na all y cwsmeriaid bleidleisio â'u traed a phenderfynu peidio â thalu am eu gwasanaeth. Yn achos HCC, mae sicrhau llywodraethu cryf yn arbennig o bwysig – mae'n amlwg y bu methiant yn ddiweddar o ran llywodraethu neu ni fyddai'r problemau a gafodd sylw yn y wasg yn y sefydliad wedi digwydd.

[22] Bord Bia, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraffau 85 - 87

Roeddem yn bryderus o glywed nad oedd llawer o randdeiliaid yn credu bod Bwrdd HCC yn ddigon cynrychioliadol o'r diwydiant a thalwyr yr ardoll. Roeddem yn synnu o sylwi nad oedd unrhyw broseswyr nac arwerthwyr wedi'u cynrychioli ar y Bwrdd. Pwy bynnag fydd yn berchen arno, rhaid i HCC weithio er lles y rhai sy'n talu'r ardoll a'r diwydiant ehangach. Y ffordd orau o hwyluso hyn yw sicrhau bod talwyr yr ardoll a'r diwydiant yn cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf o ran gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

Rhaid rhoi ystyriaeth gref i sicrhau bod y diwydiant, ac yn enwedig y rhai sy'n talu'r ardoll, wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar fwrdd HCC. Dylid ystyried cadw lleoedd ar y bwrdd ar gyfer pobl sydd â rôl benodol o gynrychioli'r rhai sy'n talu'r ardoll. Gan fod tymor y Cadeirydd presennol yn dod i ben, credwn mai dyma'r amser delfrydol i ailstrwythuro'r Bwrdd er mwyn gwella cynrychiolaeth yn y dyfodol ac i gyflawni'r nodau a drafodir yn yr adran hon.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llywodraethiant HCC gyda'r nod o wella cynrychiolaeth safbwyntiau'r rhai sy'n talu'r ardoll a chynyddu cyfraniad ehangach y diwydiant o fewn y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn dylai ystyried pob opsiwn, o gadw swyddi penodol ar y bwrdd ar gyfer y rhai sy'n talu'r ardoll a'r diwydiant ehangach, i ddychwelyd perchnogaeth lawn o'r sefydliad i ddwylo talwyr yr ardoll.

# 3. Sefyllfa ariannol a chyllid

## Cyllideb HCC

**25.** Daw cyllid craidd HCC o Ardoll Cig Coch Cymru sy'n cael ei thalu ar y cyd gan gynhyrchwyr a lladdwyr/allforwyr, ac sy'n cael ei chodi ar yr holl wartheg, defaid a moch sy'n cael eu lladd yng Nghymru neu eu hallforio'n fyw. Daw cyllid hefyd o ardoll a ddychwelwyd - ardoll sy'n cael ei chyfrifo ar dda byw a anwyd ac a fagwyd yng Nghymru ac a laddwyd yn Lloegr neu'r Alban. Cafodd HCC gyllid ychwanegol drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru tan fis Medi 2023.[24]

**26.** Mae Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2023-24 yn dangos diffyg gweithredol o £505,274, o'i gymharu â diffyg o £118,867 yn y flwyddyn flaenorol. Ymhlith pethau eraill, mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn tynnu sylw at incwm ardoll is na'r disgwyl oherwydd bod y ddiadell genedlaethol wedi crebachu a gostyngiad yn y cnwd cig oen, gan arwain at ostyngiad yn yr incwm ardoll yn ystod y flwyddyn o £458,000 yn erbyn y gyllideb.[25]

**27.** Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr hefyd yn dweud bod CThEF wedi newid statws TAW HCC o 1 Ebrill 2024. Mae'n dweud na all HCC adennill cyfran sylweddol o TAW a gafwyd ar ei gostau mwyach, gan arwain at ostyngiad o £400,000 yn y gyllideb gwariant.[26]

**28.** Dywedodd Prif Weithredwr newydd HCC wrth y Pwyllgor y byddai cyfrifon eleni yn gytbwys.[27]

## Cynaliadwyedd ariannol

**29.** Clywodd y Pwyllgor fod cefnogaeth eang i barhau ag Ardoll Cig Coch Cymru. Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau:

> *"It's extremely important that we have a levy body in Wales to deal with the marketing, promotion and development of the industry, to address a number of market failures that, obviously, we have in the industry, and issues that individual producers or processors wouldn't*

[24] HybuCig.Cymru Ardoll Cig Coch;
Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru
[25] HCC, Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024
[26] HCC, Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 166

> *be able to achieve on their own. So, the value and the use of a levy body in terms of undertaking that activity is extremely important, and it's for all of us as an industry to work together to make sure that we deliver and that our levy body can help to deliver a productive, progressive and profitable red meat sector in Wales."*[28]

**30.** Ychwanegodd FUW:

> *"we can't underestimate the importance of having an effective red meat levy board in Wales."*[29]

**31.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor lawer o bryderon ynghylch hyfywedd ariannol parhaus HCC. Dywedodd Kepak wrth yr Aelodau fod yr her o ostyngiad cyllid HCC yn effeithio ar ei allu i gyflawni ei gylch gwaith:

> *"… with the wide remit that HCC has …, that is not enough money. It doesn't matter how good you are, you can't pull that rabbit out of the hat …*
>
> *When I was working for HCC as well, the income, if I recall, was over £6 million, and the buying power of that was significantly more because of the VAT issue, and also with that value 10 years ago, you could buy a lot more for that money."*[30]

**32.** Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau:

> *"we should be looking at how we can maximise funding and resource into Hybu Cig Cymru to support us in terms of achieving all those activities, and one of the benefits of potentially being owned by Welsh Ministers is that Welsh Ministers then should be able to put public funding into it. I don't believe that the organisation is completely sustainable purely on the levy. Historically, they received significant support from the EU rural development programme, as I mentioned earlier; when that's come to an end, we're not receiving that funding. So, I believe that if you look at Bord Bia in Ireland, and they came to present to our most recent NFU Cymru conference, and I think our*

[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 10
[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 12
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 125-126

> *members were extremely impressed, really, in terms of how they operate on that basis. So, I'd like to see us consider opportunities like that. And it is important we do that, because ultimately, we are competing in domestic and international markets with countries like that, who are significantly investing, putting public money into the marketing and promotion of their produce as well."*[31]

**33.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NFU Cymru fod y rhesymeg dros drefniant lle mae Gweinidogion Cymru yn berchen ar HCC yn gwanhau'n sylweddol os nad yw Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn briodol darparu cyllid i gefnogi gweithgarwch i gyflawni amcanion y Mesur Cig Coch.[32]

**34.** Dywedodd HCC wrth yr Aelodau y byddai angen dyblu'r arian sydd gan y sefydliad, yn ddelfrydol, er mwyn iddo fod hyd yn oed â chyfle i fod yn berthnasol wrth fynd i'r afael â'i gylch gwaith. Nododd nad yw hynny'n bosibl. Nododd y byddai'n dadlau mewn byd delfrydol y byddai'n dweud bod angen i arian yr ardoll gael ei ategu gan gyllid o ffynonellau allanol o faint tebyg.[33] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"If you look at the potential sources of where you could get the extra funding, they're very limited. You could borrow from a bank, and we can't do that. We can do our own activities, but we don't have the scale to actually make the income from those activities to be enough to actually put enough money in the kitty, as it were, or we can try to get funding from the Government. So, you end up quickly going down that avenue."*[34]

**35.** Ychwanegodd HCC ei bod yn gwbl sylfaenol ac yn briodol bod HCC yn chwilio am ffynonellau cyllid amgen, gan nodi ei fod wedi bod yn gwneud hynny, a bod ganddo dîm penodol sy'n edrych tuag at ffynonellau cyllid amgen. Nododd mai dim ond nifer gyfyngedig o ffynonellau cyllid sydd ar gael yn yr hinsawdd bresennol, a'i bod yn anodd cael mynediad atynt.[35]

**36.** Ym mhapur y Dirprwy Brif Weinidog nodwyd y canlynol:

---

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 107
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru
[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 313
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 315
[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 318

> *"Rydym yn cydnabod y sefyllfa ariannol anodd y mae HCC ynddi oherwydd ffactorau amrywiol gan gynnwys y gostyngiad yn incwm yr ardoll cig coch ac rydym yn disgwyl ymlaen at weithio gyda HCC wrth iddynt ddatblygu eu blaenoriaethau drwy Weledigaeth 2026 a'u henw da am hyrwyddo'r sector cig coch."*[36]

**37.** Fel y trafodir yn yr adran Strategaeth ar gyfer y Dyfodol yn yr adroddiad hwn, cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog at y syniad o HCC yn cael cyllid ychwanegol nifer o weithiau yn ei sesiwn dystiolaeth, pe bai gweledigaeth newydd HCC yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y Llywodraeth ar gyfer y sector. Dywedodd wrth yr Aelodau fod

> *"if you wanted a shorthand version of where the Government's base is in terms of funding, potentially, going forward and so on, it's actually building on what the red meat sector has done really successfully over recent years. The reputation is built on strong sustainability. So, it's somewhere within that space, within SFS, within wider decarbonisation. Where's the ask from HCC, to say, 'We can actually deliver for you, not just the productivity and the valuable businesses and the processing sector and so on, but the strong sustainability piece around the red meat sector'? That has real potential."*[37]

**38.** Fodd bynnag, roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn glir bod yr ardoll yn bwysig iddo. Dywedodd wrth yr Aelodau fod cyllid gan y rhai sy'n talu'r ardoll bob amser yn hanfodol, gan mai hwnnw sy'n gwneud y sefydliad yn ymatebol iddynt ac yn rhoi llinell atebolrwydd uniongyrchol at dalwyr yr ardoll. Pwysleisiodd mai sefydliad talwyr ardoll ydyw.[38]

## Niferoedd da byw yn gostwng

**39.** Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid at y gostyngiad yn niferoedd da byw yng Nghymru a'r gostyngiad yn y cynnyrch sydd ar gael i broseswyr Cymru o ganlyniad i hynny. Dywedodd Dunbia wrth yr Aelodau fod y dirywiad yn y ddiadell a'r fuches sugno yn duedd frawychus i'r diwydiant prosesu, a fydd â chanlyniadau sylweddol yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Nododd fod sefyllfa lle mae llai o dda byw

---

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 118
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 105

gorffenedig ar gael yn golygu llai o gynnyrch i'w brosesu a'i farchnata, sy'n creu risg o golli marchnadoedd sefydledig ar gyfer cig eidion a chig oen Cymru.[39]

**40.** Dywedodd Kepak wrth yr Aelodau:

> *"The fundamental issue at the moment is to look at and get industry, Government and HCC to work together to produce livestock. And I'm not talking about maintaining numbers or declining numbers, but we're the most sustainable, or one of the most sustainable production systems in the world. … we need to use the resources that we have as efficiently as possible, and by working together, I think, that brings everything together in a good way."*[40]

**41.** Dywedodd HCC wrth aelodau mai dadstocio oedd y broblem fwyaf sylfaenol y mae'r diwydiant yn ei hwynebu o bell ffordd. Dywedodd Prif Weithredwr newydd HCC fod 35 o ladd-dai yng Nghymru pan ddechreuodd yn y diwydiant cig yng Nghymru, a bod y ffigur wedi gostwng i 16 erbyn heddiw. Ychwanegodd fod pedwar o'r lladd-dai hynny, boed yn gig eidion neu gig oen, yn gwneud tua 80 y cant o gyfanswm y gwaith prosesu. Nododd fod y gwaith prosesu wedi'i wasgaru'n fwy eang rhwng lladd-dai yn y gorffennol.

**42.** Cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ei gyngor i Lywodraeth Cymru ar Bedwaredd Gyllideb Garbon Cymru ar 14 Mai. Mae'r llwybr (o 2025 i Sero Net erbyn 2050) a nodir yn y cyngor yn tybio y bydd nifer y gwartheg a'r defaid yn gostwng 19% erbyn 2033 o gymharu â 2022.[41]

**43.** Dywed y Pwyllgor y bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi ffermwyr i arallgyfeirio oddi wrth ffermio da byw a thuag at greu coetiroedd ac adfer mawndiroedd. Mae'r cyngor yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar ffermio da byw a busnesau eilaidd fel lladd-dai.[42]

**44.** Yn ei ddatganiad yn ymateb i gyhoeddi'r cyngor, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'n ystyried argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd cyn cyflwyno rheoliadau i osod Cyllideb Carbon 4 a'r terfyn uned carbon ar gyfer Cyllideb Carbon 3 mewn cyfraith yn yr hydref. Dywedodd y bydd Llywodraeth

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dunbia (Saesneg yn unig)
[40] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 130
[41] TheUKCCC.org.uk Wales fourth carbon budget (Saesneg yn unig)
[42] TheUKCCC.org.uk Wales fourth carbon budget (Saesneg yn unig)

Cymru'n tynnu ar y cyngor wrth ddatblygu ei chynllun ar gyfer cyflawni Cyllideb Carbon 3, i'w gyhoeddi cyn diwedd 2026.[43]

**45.** Wrth roi tystiolaeth i ymchwiliad arall ar gyfer y Pwyllgor hwn, rhybuddiodd Prif Weithredwr HCC y byddai dadstocio am resymau amgylcheddol yn gam gwag. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn debygol y bydd y defnydd o gig yng Nghymru yn aros yn sefydlog felly yr hyn a wneir i bob pwrpas yw disodli cynnyrch lleol a mewnforio deunydd crai yn ei le. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"we're very fortunate in Wales that we can actually produce livestock in a very environmentally friendly manner. Our numbers would indicate some of the top in the world, because of our weather, because of our grass, and all those things that have been mentioned before. But, actually, what we should be doing, in my view, is actually say, 'We'll take that as a starting point and develop the industry forward by making sure that we're actually increasing the productivity of those farms.' Because the moment you increase the productivity of those farms, as defined by the number of kilos per hectare, effectively you are being more friendly to the planet, and you are going to be more friendly to the planet than perhaps other places that we'll be importing meat from are or will be. And I think that would be a much more responsible position to take."*[44]

## Ein barn ni

Rydym wedi clywed llawer o bryderon nad oes gan HCC ddigon o adnoddau i gyflawni ei holl amcanion. Daeth y rhybudd mwyaf sylweddol gan y Prif Weithredwr – y byddai angen iddo ddyblu ei gyllideb i gyflawni'r cylch gwaith yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn amlwg yn anghynaliadwy, yn enwedig o ystyried y gostyngiad mewn stoc ar draws ffermydd Cymru. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru a HCC naill ai ddod o hyd i ffordd o gynyddu cyllid HCC neu leihau ei ffocws i gyd-fynd â'i adnoddau presennol.

Rydym wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru archwilio Cronfa Lladd-dai Llai Lloegr ac asesu a allai cynllun tebyg fod o fudd yng Nghymru.

[43] Llywodraethwr Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar Bedwaredd Gyllideb Garbon Cymru (2031–35)
[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025, Paragraffau 101-102

Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis rhoi cyllid ychwanegol i HCC i fynd ar drywydd amcanion polisi ychwanegol fel yr awgrymodd y Dirprwy Brif Weinidog, rhaid i'r amcanion newydd gyd-fynd â chylch gwaith presennol HCC neu mae risg o or-ymestyn y sefydliad ymhellach. Nid oes pwynt talu sefydliad dan straen i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol oni bai eu bod yn ychwanegu gwerth.

**Argymhelliad 2.** Mae'r pwyllgor yn cefnogi'n llwyr y defnydd parhaus o'r ardoll statudol fel dull o ariannu HCC, fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys gan HCC, yn glir nad yw incwm gan yr ardoll yn unig yn ddigonol i gwmpasu cylch gwaith a llwyth gwaith presennol y sefydliad. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu parhau i ariannu HCC neu sut y mae'n disgwyl i HCC barhau i weithredu'n ariannol.

**Argymhelliad 3.** Mae'n amlwg, er mwyn i HCC gyflawni ei fandad helaeth, y bydd angen cyllid ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru a HCC archwilio pob ffordd bosibl i gynyddu cyllideb HCC, gan gynnwys nodi gwaith y gallai HCC ei wneud i ategu polisïau eraill Llywodraeth Cymru a sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau o'r fath. Ar ben hynny, dylai nodi ffynonellau ariannu eraill y gallai HCC wneud cais amdanynt, gan gynnwys grantiau, ac o bosibl darparu gwasanaethau i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynnydd mewn cyllid ar gyfer HCC ddod law yn llaw â mesurau atebolrwydd a pherfformiad gwell.

**Argymhelliad 4.** Er mwyn cefnogi gwaith cynllunio busnes ffermwyr a phroseswyr, dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar niferoedd da byw yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cefnogi gostyngiad mewn niferoedd da byw, dylai nodi'r effaith ddisgwyliedig ar y diwydiant prosesu a darparu unrhyw gymorth y gallai fod ei angen.

# 4. Arweinyddiaeth a morâl y staff

**46.** Mae HCC wedi bod drwy gyfnod cythryblus yn ddiweddar. Lleisiwyd pryderon yn y cyfryngau, ar lawr y Senedd, ac yn uniongyrchol gyda'r Pwyllgor hwn ynghylch diwylliant y sefydliad. Mae'r cyfryngau wedi adrodd am nifer fawr o staff yn gadael, ac mae HCC wedi cynnal ymchwiliad adnoddau dynol uchel ei broffil i fwlio o fewn y sefydliad.[45]

**47.** Fel y nodwyd uchod, mae'r adroddiad hwn yn edrych tua'r dyfodol ac nid rôl y Pwyllgor hwn yw ymchwilio i gwynion adnoddau dynol nac edrych dros ymchwiliadau adnoddau dynol blaenorol. Fodd bynnag, mae Aelodau o'r farn bod diwylliant gweithle iach yn bwysig i sicrhau y gall HCC lwyddo yn ei genhadaeth a bod arweinyddiaeth dda yn rhan allweddol o'r diwylliant iach hwnnw.

## Problemau gydag arweinyddiaeth

**48.** Ar 14 Mehefin 2024 ymddiswyddodd Prif Weithredwr blaenorol HCC yn dilyn cyfnod hir o absenoldeb.[46] Ym mis Hydref 2024, ysgrifennodd Cadeirydd HCC at Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar y pryd, Paul Davies, i nodi amgylchiadau ei ymadawiad. Roedd y llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *"Regarding the disciplinary process involving former HCC CEO Gwyn Howells, the Board of Hybu Cig Cymru unanimously accepted the recommendation of an independent disciplinary process that its former CEO, Gwyn Howells, would have been dismissed for gross misconduct had he not resigned.*
>
> *Mr Howells resigned immediately prior to a disciplinary hearing, which followed a thorough investigation. Both aspects were conducted by specialist, independent HR experts who were supported by legal advice.*
>
> *The Board decided that the seriousness of the matter necessitated that the disciplinary officer should be allowed to deliver a final report to conclude the process properly.*

[45] BBC.co.uk Bullying claims at Welsh meat promotion firm (Saesneg yn unig), 8 Chwefror 2024; Famers Weekly 'Toxic culture' allegations rock HCC amid staff exodus (Saesneg yn unig), 25 Tachwedd 2024
[46] Farmers Weekly Former HCC boss 'would have been sacked if he hadn't quit' (Saesneg yn unig), 19 Gorffennaf 2024

> *That report concluded that there was sufficient evidence of gross misconduct on three separate counts related to Mr Howells' management and leadership.*
>
> *The Board has accepted all recommendations from the specialist HR and legal advisors throughout the process."*[47]

**49.** Aeth y llythyr ymlaen i ddweud bod HCC wedi "ymrwymo i adolygu'r holl weithdrefnau llywodraethiant" er mwyn caniatáu i'r sefydliad "barhau i gyflawni, gyda'r rhagoriaeth y mae talwyr ardoll yn ei ddisgwyl". Nodwyd ymhellach: "Mae'r Bwrdd bob amser wedi bod yn glir taw ein staff yw ein hased mwyaf ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi iechyd a lles ein tîm." Esboniodd y llythyr hefyd fod HCC yn gweithio gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru i recriwtio Prif Weithredwr newydd "yn gyflym".[48]

**50.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor hwn, cododd Dunbia bryderon ynghylch effaith absenoldeb y cyn-Brif Weithredwr. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod absenoldeb uwch arweinyddiaeth dros y 12-18 mis diwethaf wedi effeithio'n sylweddol ar allu HCC i gyflawni ei flaenoriaethau presennol.

**51.** Dywedodd na chafwyd llawer o ymgysylltu â'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd dros dro, a phwysleisiodd fod gallu HCC i gyflawni ei flaenoriaethau wedi'i wanhau yn ôl pob golwg, ar ôl i nifer sylweddol o staff gweithredol, staff cymorth a dau aelod allweddol o'r bwrdd adael y sefydliad. Aethant ymlaen i ddweud, yn dilyn yr ymadawiadau, fod HCC yn sefydliad llawer llai, ac nad oes ganddo gyfeiriad clir.[49]

## Effeithiwyd ar forâl staff ond mae'r sefyllfa yn gwella

**52.** Ar 20 Ionawr 2025 cyhoeddodd HCC ei fod wedi penodi Prif Weithredwr newydd, José Peralta. Roedd Mr Peralta gynt yn Brif Swyddog Gweithredol Puffin Produce, Sir Benfro, ac yn ôl HCC, roedd ganddo gyfoeth o brofiad ar ôl gweithio am dros 25 mlynedd yn y diwydiant cig yn y DU ar lefel Rheolwr Gyfarwyddwr.[50]

**53.** Er iddo rybuddio mai dim ond am ddau fis yr oedd wedi bod yn y swydd ar yr adeg yr oedd yn rhoi tystiolaeth a bod ei farn yn seiliedig ar yr hyn yr oedd wedi'i weld yn ystod y cyfnod hwnnw, dywedodd Mr Peralta wrth y Pwyllgor y byddai'n naïf dweud nad oedd digwyddiadau'r 18 mis blaenorol a'r sylw negyddol a

---

[47] Llythyr gan Gadeirydd HCC at Gadeirydd y Pwyllgor hwn, 21 Hydref 2024
[48] Llythyr gan Gadeirydd HCC at Gadeirydd y Pwyllgor hwn, 21 Hydref 2024
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dunbia (Saesneg yn unig)
[50] Hybu Cig Cymru, Cyhoeddi Prif Weithredwr newydd i arwain Hybu Cig Cymru (HCC), 16 Ionawr 2025

ddenodd hynny wedi effeithio ar forâl y staff. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn rhyfeddol, o dan yr amgylchiadau, eu bod wedi cyflawni'r gwaith hwnnw mewn gwirionedd.[51] Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor nad yw'r gostyngiad yn nifer y pennau efallai wedi bod mor fawr â'r canfyddiad, gan nodi bod 29 o staff ar hyn o bryd, i lawr o uchafbwynt o 34.[52]

**54.** Dywedodd Mr Peralta wrth y Pwyllgor ei fod wedi gwneud morâl yn un o'i brif flaenoriaethau a'i fod yn gwella. Eglurodd ei fod wedi dechrau cyfarfodydd staff misol a chyfarfodydd un-i-un gyda staff. Wrth grynhoi'r sefyllfa bresennol i'r Pwyllgor, dywedodd:

> *"Is the morale low? Yes. Is it getting better? Absolutely. It is my determination to make sure that it gets better every day. But I believe that the best way to make sure that morale gets better is by two things: having a clarity of purpose, and the second thing is engaging with individuals."*[53]

**55.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod morâl staff wedi bod yn thema gyson mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a HCC. Dywedodd:

> *"Is it looking better, going forward? I will not be complacent enough to say everything now is completely hunky-dory, but what I can say is, with the appointment of the new board members that are in place, the new chief executive … I think that is really stabilising things now, and that will have an effect on morale as well. … it's been a tricky 18 months, but it feels like now that it's moving into a new phase, and I think that should be welcomed."*[54]

**56.** Rhestrodd y Dirprwy Brif Weinidog hefyd rai o'r mesurau penodol y mae HCC wedi'u rhoi ar waith i gefnogi staff:

- rhaglen gymorth i weithwyr (cwnsela a chymorth ar faterion personol a gwaith);

[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 163
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 168
[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 175
[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 18

- diwrnodau cwrdd i ffwrdd i staff gan gynnwys cyfleoedd i staff godi materion gyda rheolwyr a chydweithwyr;
- sesiynau cerdded a sgwrsio; a
- chymorth iechyd a lles.

**57.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau fod y tîm hwn yn gymharol fach, ond bod y mathau hynny o fentrau'n ceisio gwella'r sefyllfa yn sgil yr heriau a welwyd yn ystod y 18 mis diwethaf.[55]

## Ein barn ni

O'r cychwyn cyntaf, cytunwyd y byddai'r ymchwiliad hwn yn edrych tua'r dyfodol ac yn gwneud argymhellion yn seiliedig ar ddyfodol HCC. Nid oeddem am ddadansoddi ymchwiliadau adnoddau dynol blaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod gan HCC sylfaen gadarn ar gyfer ei ddyfodol, a dim ond sefydliad sydd â diwylliant gwaith iach a pharch at ei weithwyr all greu'r sylfaen gadarn honno.

Roedd yn galonogol clywed am yr ymyriadau y mae'r Prif Weithredwr newydd wedi'u rhoi ar waith i wella'r diwylliant yn HCC. Edrychwn ymlaen at glywed am gynnydd ar y camau gweithredu hyn ac unrhyw waith pellach a wneir i wella diwylliant HCC yn y tymor hir.

**Casgliad 1.** Mae diwylliant corfforaethol iach ac agored yn bwysig ar gyfer perfformiad unrhyw sefydliad, ynghyd â llesiant ei staff. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mesurau a roddwyd ar waith gan y Prif Weithredwr newydd ac o'r farn bod angen gwneud gwaith dilynol yn eu cylch a'u cynnal yn y tymor hir.

**Argymhelliad 5.** Dylai HCC gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu cynnydd ar greu a chynnal diwylliant corfforaethol iach am y tair blynedd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro'r diwylliant yn HCC a rhoi gwybod i'r Pwyllgor hwn a'i olynydd yn y Senedd nesaf am gynnydd HCC yn y maes hwn.

[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 26

# 5. Cyflawni'r blaenoriaethau

## A yw HCC yn cyflawni ei flaenoriaethau?

**58.** Clywodd y Pwyllgor bryderon bod effaith arweinyddiaeth wael, a phobl fedrus sy'n gadael HCC, wedi cael effaith negyddol ar ei berfformiad. Dywedodd Dunbia wrth y Pwyllgor fod absenoldeb uwch arweinyddiaeth dros y 12-18 mis diwethaf wedi effeithio'n sylweddol ar allu HCC i gyflawni ei flaenoriaethau presennol.[56]

**59.** Dywedodd Kepak wrth y Pwyllgor fod HCC yn arfer cyflwyno llawer o raglenni gan ddefnyddio cyllid yr UE, fodd bynnag:

> *"that activity has dwindled, as European funds dwindled, effectively, and it hasn't been replaced by any funding—no significant other funding—from other sources. So, that's made it very difficult, you know. I used to work with HCC, and we had many programmes: the beef improvement project, £2.2 million over three years; the woodchip project; the electronic identification project. All these projects, you could see activity, and that gives you an opportunity to discuss other things on the farm as well, like promoting and what's happening."*[57]

**60.** Dywedodd HCC wrth y Pwyllgor ei fod yn "yn darparu gwerth da am arian i dalwyr yr ardoll gyda chyllideb gyfyngedig sy'n prinhau ar gyfer cwmpas eang". Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, fe eglurodd fod ei weithgareddau'n "niferus ac amrywiol" a chyflwynodd restr hir o "weithgareddau mwyaf perthnasol ac effeithiol HCC rhwng 2022-25" wedi'u grwpio yn ôl "maes y gadwyn gyflenwi" y mae'n dylanwadu arno ac yn ei gefnogi:

- ffermwyr;
- proseswyr a'r sector allforio;
- defnyddwyr ac adwerthwyr;
- polisi a chynaliadwyedd;
- ymgysylltu ag iechyd ac addysg; a

[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dunbia
[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 42

- chyfathrebu.[58]

**61.** Yn y sesiwn dystiolaeth dywedodd HCC y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"HCC has a business plan that it delivers for the programme for government, and it operates then a one-year cut as an operational plan, and, over the last 18 months, HCC has delivered on all of its key performance indicators and outputs. … in terms of that strategic delivery against the vision, and how that has been implemented in the business plan, in its operational planning, those KPIs have been met."*[59]

**62.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod ffocws di-baid wedi bod ar weithredu a chyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan y Cadeirydd, a nawr gyda'r Prif Weithredwr newydd yn ei swydd hefyd. Aeth ymlaen i ddweud nad ydym wedi gweld gostyngiad mewn perfformiad, ac nad ydym wedi eu gweld nhw'n tynnu eu llygaid oddi ar y bêl.[60]

**63.** Pan drafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd gan Randdeiliaid am broblemau o ran cyflawni gan HCC – a amlinellwyd uchod – dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, o safbwynt noddwr a Gweinidog, eu bod wedi cadw ffocws di-baid ar a yw'n cyflawni, a yw'r perfformiad yno, a yw'n gwneud y prif ffrydiau marchnata, yn hyrwyddo ar ran talwyr yr ardoll, a yw'n mynd i'r digwyddiadau ac yn y blaen. Tynnodd sylw at waith HCC, lle mae wedi nid yn unig cynnal digwyddiadau ar gyfer talwyr yr ardoll i ymgysylltu â hwy, yn eang, gan gynnwys proseswyr, ond hefyd y cyhoedd ehangach, gan fod hynny'n rhan ohono hefyd, esbonio'r hyn y mae HCC yn ei wneud i'r cyhoedd. Dywedodd fod HCC hefyd wedi bod ar y teithiau penodol hynny i hyrwyddo a rhoddodd yr enghraifft o weithio gyda llysgenhadaeth Dubai i hyrwyddo cig oen Cymru yn yr Emiradau Arabaidd Unedig a Saudi Arabia.

**64.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"But if you're saying to me, 'Is it absolutely perfect? Have they touched every base?', I don't think any organisation can genuinely say that."*[61]

[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 165
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 12
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 15

## Cydweithio â chyrff ardoll eraill yn y DU

**65.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Dunbia wrth y Pwyllgor:

> *"The primary goals of HCC include promoting Welsh Red Meat both domestically and internationally and highlighting the dedication of Welsh farmers. Unfortunately, recent efforts have resulted in considerable duplication of tasks previously performed by other levy boards or major processors."*[62]

**66.** Roedd y dystiolaeth a roddwyd gan dalwyr yr ardoll yn cefnogi HCC yn cydweithio â Byrddau Ardoll eraill yn eang lle bo'n briodol. Dywedodd FUW wrth yr Aelodau fod cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau, adnoddau cyfunol, gyda byrddau ardoll eraill, fel y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Quality Meat Scotland, i edrych ar ffyrdd y gall y DU elwa o farchnadoedd ymhellach i ffwrdd ar draws y byd, a fydd wedyn, wrth gwrs, yn arwain at fanteision i gig coch Cymru.[63]

**67.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NFU Cymru hefyd fod cydweithrediad rhwng byrddau ardoll yn bwysig ar gyfer effeithlonrwydd. Awgrymodd y byddai'n ystyried bod Ymchwil a Datblygu, mesurau cynaliadwyedd, lliniaru newid hinsawdd ac ymgyrchoedd i frwydro yn erbyn cyhoeddusrwydd negyddol am fwyta cig coch ac effaith cynhyrchu da byw ar newid hinsawdd yn feysydd posibl lle byddai cydweithio yn fuddiol.[64]

**68.** Dywedodd Kepak wrth yr Aelodau ei fod yn siŵr bod cyfleoedd i weithio ar feysydd anghystadleuol gyda'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, er enghraifft, ac y gallai hyn fod yn gyllid, adnoddau dynol, diogelu enw da'r diwydiant cig coch. Dywedodd fod yna feysydd lle gellid gwneud hynny, ac, heb os, arbedion costau. Dadleuodd y byddai hyn yn rhyddhau arian i'r sefydliad i ymdopi â'r heriau sydd ganddo.[65]

**69.** Tynnodd Kepak sylw hefyd at waith arloesol yn Iwerddon o amgylch cynaliadwyedd sydd wedi deillio o gydweithrediad rhwng ei fwrdd ardoll (bwrdd hyrwyddo bwyd a diod Iwerddon), Teagasc (Awdurdod Amaethyddiaeth a Datblygu Bwyd Iwerddon) a Llywodraeth Iwerddon. Dywedodd wrth yr Aelodau y

---

[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dunbia
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 35
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 138

gellid efelychu hyn yn y DU trwy gydweithrediad rhwng Byrddau Ardoll a'r Llywodraeth:

> *"If you look at AgNav, what they have in Ireland, looking at the way that they're increasing sustainability activity, and measuring it and baselining it and stuff, we're way behind. If you process an animal in Ireland, you know the carbon footprint. Now, we don't have that ability. We need to get ahead of the game, really, and that's something that has been lacking."*
>
> *"At the moment, individual processors are doing their own thing, and that's not going to be sustainable, and probably Government needs to come in. And what you have in Ireland is Teagasc and Bord Bia working together with Government to deliver these projects, which is missing at the moment. And probably those kinds of things needs to be done across England and Wales, not just in Wales, because it's not competitive when it comes to climate change and sustainability."*[66]

**70.** Dywedodd HCC wrth yr Aelodau ei fod eisoes yn cydweithio â Byrddau Ardoll eraill mewn meysydd anghystadleuol. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"there's a significant work stream on collaboration with other levy bodies, UK-wide and GB-wide, on non-competitive areas. The organisations meet across the year in all four nations, and we talk about what are the priorities for the sector in that context, how do we work together, what are the non-competitive areas—so, advocacy, defence, nutrition, environment, policy and data for trying to shape policy in a productive way that keeps farmers farming."*[67]

**71.** Aeth ymlaen i roi rhagor o wybodaeth am y cydweithrediad hwn gan ddweud:

> *"there are quarterly meetings that happen between CEOs and chairs on those levy bodies, and I'm including all of them, including Northern Ireland. We're now going to start to move into monthly meetings of let's call it less senior staff, including me, to make sure that we have that alignment to actually be more constant, rather than just waiting*

[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 148
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 227

*for a quarterly meeting. Second, I can give you some examples, but I'll use one that is very active today. We're about to embark on a baselining of the carbon footprint of farms across the UK, basically studying the carbon footprint of 68 farms across the UK, of which we in Wales, HCC, wanted to support and do eight. And that's done in collaboration with the Agriculture and Horticulture Development Board."*[68]

## Cyswllt Ffermio

**72.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am berthynas HCC â Cyswllt Ffermio. Dywedodd y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol y canlynol wrth y Pwyllgor: O ran y gwaith ar arfer gorau, mae ffermwyr Cymru yn elwa o'r rhaglen Cyswllt Ffermio a ariennir gan y llywodraeth, ac y byddent yn cwestiynu a oes unrhyw ddyblygu yn yr ymdrech trosglwyddo gwybodaeth neu ddryswch ynghylch pwy sydd yn gyfrifol. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn deall bod perthynas anodd rhyngddynt, fodd bynnag, dywedodd fod y berthynas waith rhwng HCC a Cyswllt Ffermio wedi bod yn agosach yn y gorffennol, ac y byddai'n fuddiol iawn i'r diwydiant pe byddent yn dychwelyd at hyn.[69]

**73.** Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau y gallai llawer mwy o gydweithio ddigwydd rhwng HCC a Cyswllt Ffermio. Dywedodd y canlynol:

> *"you almost see competition between them and duplication. I think it goes back to when they were probably competing for funds under the historic EU rural development programme. We can't afford that any more. We've got to make sure that they work together. They do work together on some things, but I think, at a very senior level, Hybu Cig Cymru and Farming Connect need to be meeting regularly. I would see, with my simplistic terms, Hybu Cig Cymru providing the technical and scientific expertise, and Farming Connect using their expertise in terms of knowledge exchange and knowledge transfer to deliver that on farm."*[70]

**74.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd HCC wrth yr Aelodau ei fod wedi bod yn meithrin perthynas agosach â Cyswllt Ffermio. Yn benodol, dywedodd:

---

[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, Paragraff 228
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol (Saesneg yn unig)
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 143

> *"Dros y pum mlynedd diwethaf mae HCC wedi ceisio datblygu perthynas waith agosach gyda'r rhai sy'n darparu'r rhaglen Cyswllt Ffermio a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at HCC yn cyflwyno mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd Cyswllt Ffermio. Yn hydref 2024, roedd HCC yn bresennol ac â gwybodaeth ar gael ym mhob digwyddiad cig coch 'Ein Ffermydd' a drefnwyd gan Cyswllt Ffermio. Mae gan HCC hefyd fewnbwn strategol a throsolwg o'r rhaglen drwy ei bresenoldeb a'i gynrychiolaeth ar Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio."*[71]

**75.** Yn ei sesiwn dystiolaeth, ychwanegodd HCC at hyn gan ddweud ei fod yn ceisio gweithio'n ddoethach gyda chyllideb sy'n lleihau ac fel rhan o hyn y mae wedi bod yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio. Dywedodd fod gan Cyswllt Ffermio sioe deithiol o ddigwyddiadau a gynhelir bob blwyddyn, ac, yn 2024, aeth HCC i'r rheini fel siaradwyr ac fel cefnogwyr. Dywedodd yr oedd yn gyfle i ymgysylltu drwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio, drwy ei rhwydwaith eang, i siarad am y gwaith y mae HCC yn ei wneud—nid dyblygu, nid ychwanegedd digwyddiadau, nid dyblygu gwariant yr ardoll, sy'n wirioneddol bwysig, ond defnyddio'r digwyddiadau allweddol hynny, gweithio ar y cyd, a siarad am gyflawni HCC.

**76.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau ei fod o'r farn bod perthynas HCC â Farming Connect yn ychwanegu gwerth ac nad oedd yn creu dyblygu. Dywedodd y canlynol:

> *"So, where they see the opportunity to get the red meat priorities in there, in a space, with Farming Connect or with others, I think that probably adds value, rather than duplicates. They're arguing HCC objectives, HCC imperatives, but they're doing it, they're looking for the opportunities there with Farming Connect and with others to make their voice heard."*[72]

## Perthynas waith HCC â Llywodraeth Cymru

**77.** Tynnodd Kepak sylw at bwysigrwydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a HCC. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn bwysig bod gan HCC berthynas dda gyda gwleidyddion a'r Llywodraeth hefyd, a gweision sifil. Eglurodd:

---

[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 124

> *"it's just as important to have relationship with. I think, in the past, if I use my own experience, we delivered schemes on behalf of the Welsh Government and worked jointly together. Perhaps those opportunities should be looked at again, and especially if there was any crisis; Government would turn immediately to the levy board to help that, whatever the issue was. And it's not about HCC lobbying Government—that's not what I mean; that's the jobs of the unions. But it's to provide facts, advice—and sometimes it's difficult, because one thing doesn't benefit the whole industry; you need to have a balance—and I think that's probably an area where you need people to do that, and at the moment, we probably haven't got the people to do that in numbers."*[73]

**78.** Dywedodd HCC wrth yr Aelodau fod ganddo berthynas iach â Llywodraeth Cymru, ond bod y Prif Weithredwr newydd yn teimlo y gellid ei datblygu o hyd. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"I've found the Welsh Government very engaging. I've found our relationship with the Welsh Government—the one I've had so far—incredibly helpful, co-operative and listening. And that's the truth, as an external observer until now, from the point of relationship. Can we do more? Of course we can, and we're working."*[74]

**79.** Aeth HCC yn ei flaen i ddweud:

> *"The relationship with civil servants is very good, very strong. There's a lot of work to do at the moment on behalf of the industry, and it's in the spirit of collaboration, and that collaboration is very strong. I think an interesting thing that we are considering as part of the vision is what engagement we can do politically in that sphere, and maybe there is a sponsored event that is required so that we can get that wider engagement with all politicians and all parties to ensure that you get the opportunity to share your views and have those wider conversations. And, more broadly than that, the HCC door is open, the*

[73] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 62
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 308

> *phone is always on and we always welcome having those conversations."*[75]

**80.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod ei swyddogion ar lefel uwch hefyd yn arwain cyfarfodydd rheolaidd, bob chwarter, gyda HCC. Dywedodd i'r bobl hynny nad ydynt yn deall natur HCC a'i berthynas â'r Llywodraeth, fod HCC, wrth gwrs, yn fwrdd a ariennir gan ardoll, ond ei fod yn gweithio gyda graen fframwaith polisi Cymru hefyd.[76]

## Ein barn ni

Mae gan HCC gylch gwaith eang iawn, fodd bynnag, gan fod ei gyllideb wedi'i lleihau, mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn dangos bod rhanddeiliaid yn teimlo bod ei allbwn wedi lleihau hefyd. Rydym yn credu, oni bai ei bod yn penderfynu rhoi mwy o arian i'r sefydliad, y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda HCC i sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd y gellir eu cyflawni o fewn ei gyllideb. Rhaid i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn fod yn glir, gyda chanlyniadau mesuradwy, a rhaid i'r Dangosyddion a'r cynnydd yn erbyn y gwaith o'u cyflawni gael eu rhannu'n dryloyw. Wrth ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol, rhaid i HCC a Llywodraeth Cymru ystyried anghenion talwyr yr ardoll.

Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am y gwaith y mae HCC yn ei wneud gyda byrddau ardoll eraill a Cyswllt Ffermio. Er bod gan bob un ohonynt rolau diffiniedig ac wrth gwrs mae rhywfaint o gystadleuaeth rhwng byrddau ardoll, mae hwn yn faes y byddai'r Pwyllgor yn hoffi ei weld yn cael ei ddatblygu. Hoffem weld mwy o gydweithio rhwng HCC, byrddau ardoll eraill ac o bosibl Cyswllt Ffermio i leihau dyblygu ymdrechion a chyflawni arbedion maint. Credwn y gallai hyn ryddhau adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio i fynd ar drywydd nodau craidd HCC ac, os caiff ei wneud yn gywir, gallai greu mwy o effaith a chyrhaeddiad ehangach. Mae'r Aelodau'n credu ei bod yn bwysig bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i rannu gwybodaeth a chyfarfodydd ar y cyd, a gallai gynnwys rhannu adnoddau, caffael ar y cyd neu hyd yn oed uno swyddogaethau ochr gefn.

**Argymhelliad 6.** Mae gan HCC gylch gwaith eang iawn, fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i HCC gyfeirio ei waith i gyd-fynd â'i gyllideb lai. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar Ddangosyddion

[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 309
[76] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 10

Perfformiad Allweddol newydd, mesuradwy a thryloyw gyda HCC. Dylai Llywodraeth Cymru fesur cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn rheolaidd, a dylai canlyniad yr adolygiad hwnnw gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n glir ac yn dryloyw i dalwyr yr ardoll a rhanddeiliaid eraill. Dylai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd gynnwys dangosyddion sy'n:

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a thalwyr yr ardoll gan gynnwys cwrdd â thalwyr yr ardoll lle y maent a sicrhau gweledедd clir a hygyrchedd staff HCC gan gynnwys uwch arweinwyr;

- Sicrhau y gwerth gorau i dalwyr yr ardoll ac unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol efallai y bydd HCC yn ei gael; a

- Sicrhau canlyniadau cryf o weithgareddau hyrwyddo sy'n cael eu mesur mewn ffordd glir ac agored.

**Casgliad 2.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod HCC yn gweithio gyda Byrddau Ardoll eraill mewn meysydd anghystadleuol a chyda Cyswllt Ffermio. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cynyddu'r ymdrechion hyn i wneud y mwyaf o'r effaith ar y cyd, sicrhau bod dyblygu ymdrechion yn cael ei leihau a chefnogi ymgysylltiad talwyr yr ardoll a rhanddeiliaid â HCC.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i nodi meysydd lle gallai HCC gynyddu cydweithio a/neu rannu adnoddau gyda byrddau ardoll eraill a sefydliadau datganoledig perthnasol eraill fel Cyswllt Ffermio. Dylai hyn gynnwys chwilio am feysydd lle gallant leihau dyblygu ymdrechion a manteisio ar arbedion maint posibl. Diben yr adolygiad hwn ddylai fod nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion y gellir eu hailfuddsoddi ym musnes craidd HCC o hyrwyddo cig Cymru a datblygu'r sector cig coch. Ni ddylai'r adolygiad hwn fod yn gyfyngedig o ran cwmpas a rhaid iddo ymestyn y tu hwnt i rannu gwybodaeth syml i agweddau fel caffael ar y cyd a rhannu swyddogaethau swyddfa gefn.

# 6. Perthynas â thalwyr yr ardoll

## Ymgysylltiad HCC â ffermwyr

**81.** Clywodd y Pwyllgor bryderon am sut mae HCC yn ymgysylltu â thalwyr yr ardoll. Roedd y ddwy Undeb Ffermio o'r farn bod hwn yn faes y gellid ei wella.

**82.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd FUW wrth y Pwyllgor:

> *"[FUW members] recommended that HCC made itself visible and available in less formal settings, such as livestock markets, to ensure that all levy payers had ample opportunity to personally engage, develop their knowledge and understanding of the work that is undertaken by HCC and offer honest feedback to HCC staff and representatives."*[77]

**83.** Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau, er bod gan HCC berthynas dda â'i Fwrdd Da Byw, nid oes gan HCC yr union berthynas honno â phobl ar lawr gwlad. Aeth ymlaen i ddweud, o ran cynyddu'r gwelededd mewn mannau fel marchnadoedd da byw, mae HCC yn aml yn cynnal cyfarfodydd i rannu'r hyn y mae'n ei wneud, ond nad oes presenoldeb da yn y cyfarfodydd hyn, ac felly efallai bod angen iddo edrych ar bethau fel hynny.[78]

**84.** Dywedodd NFU Cymru wrth y Pwyllgor, er bod gwybodaeth ar gael am sut mae HCC yn defnyddio ei arian a ble mae'n mynd, yn ei adroddiad blynyddol, mae'n rhaid i chi chwilio'n galed iawn ar y wefan i ddod o hyd i'r wybodaeth honno. Awgrymodd NFU Cymru y canlynol:

> *"As unions, each and every year, we rely on our members to voluntarily pay a subscription to us, so we're continually highlighting the work that we do to justify that payment. I think HCC need that same mindset in terms of levy payers and being able to justify to them how that money is spent, and that they are getting a return on that investment to ultimately improve the viability and profitability of their businesses."*[79]

---

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)
[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraffau 46-47
[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 55

**85.** Roedd Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru hefyd yn cefnogi galwadau am bresenoldeb ffisegol HCC mewn marchnadoedd. Dywedodd wrth yr Aelodau: Er ei fod yn gostus o ran amser ac adnoddau, mae'n cael ei dderbyn yn eang mai cyfathrebu wyneb yn wyneb sydd fwyaf effeithiol wrth gynyddu cefnogaeth a dealltwriaeth yn gyflym. Byddai Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru a'i haelodau'n croesawu presenoldeb cynrychiolwyr HCC yn eu marchnadoedd da byw ac mae'n credu y byddai hyn yn ei dro yn darparu gwerth a chyfle gwych i HCC ymgysylltu â thalwyr yr ardoll, gan gynnwys y rhai anodd eu cyrraedd.[80]

**86.** Dywedodd HCC wrth yr Aelodau ei fod yn credu bod cydweithio â thalwyr yr ardoll yn bwysig a rhoddodd yr enghraifft o'i sioe deithiol flynyddol. Dywedodd fod ffocws y sioe deithiol ychydig yn wahanol. Felly, yn 2024, cynhaliodd sioe deithiol o fforymau ffermwyr. Dywedodd mai pwrpas hynny oedd ymgysylltu â'r hyn mae HCC yn ei gyflawni ac i ffermwyr a thalwyr yr ardoll allu ymgysylltu â HCC ynghylch yr hyn y mae'n ei gyflawni a gofyn cwestiynau os oeddent am wneud hynny. Felly, dyna enghraifft o 2024. Yn 2025, un o swyddi cyntaf José oedd cymryd rhan mewn rhan o sioe deithiol clybiau proseswyr a chigyddion, a oedd, unwaith eto, yn union yr un fath. Ac roedd y ffocws ar yr hyn y mae HCC yn ei gyflawni, y gallu i ofyn unrhyw gwestiynau a hefyd i gyfrannu at yr hyn yr oedd ei angen ar y rhanddeiliaid a'r talwyr yr ardoll hynny, yn y dyfodol. Aeth ymlaen i ddweud, fel tîm bach, na allwch chi fod ym mhobman bob amser.

**87.** Dywedodd hefyd bellach fod gan HCC gytundeb gyda'r Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw y byddai staff HCC yn bresennol, mewn marchnadoedd allweddol, ar adegau allweddol o'r flwyddyn. Dywedodd nad yw'n bosibl bod ym mhob marchnad da byw bob wythnos, ledled Cymru, ond mewn marchnadoedd allweddol ac amseroedd allweddol, bydd staff HCC yno.

**88.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei bod wedi gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer HCC yn ymwneud ag ymgysylltu. Dywedodd:

> *"when we have the quarterly governance meetings, which are between officials and HCC, we look at the range of KPIs, including on engagement, and one of the discussion points that we've had very recently is around that feedback that's come through from some levy payers, that perhaps they've been less visible in places like markets, et*

[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru (Saesneg yn unig)

> *cetera. So, that is one of the things that HCC are now looking at, about how they can increase some of that visibility."*[81]

**89.** Aeth ymlaen i ddweud bod y Prif Weithredwr dros dro wedi cael ei orfodi i ganolbwyntio'n bennaf ar waith mewnol oherwydd y problemau diweddar yn y sefydliad. Fodd bynnag, dywedodd wrth yr Aelodau fod cael y prif weithredwr newydd yn ei le yn ddefnyddiol iawn a'i bod yn credu bod cael newid sylweddol gyda Phrif Swyddog Gweithredol newydd, sy'n weladwy iawn ei hun, i gyd yn rhan o gynyddu'r ymgysylltiad hwnnw.[82]

## Ymgysylltu â phroseswyr

**90.** Awgrymodd Kepak y dylai HCC ymgysylltu mwy â lladd-dai. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod yn dibynnu ar eich diffiniad o fawr, a bod tua phedair lladd-dy mawr yng Nghymru, proseswyr, sydd hefyd yn tynnu esgyrn ac yn pecynnu hefyd, a bod rhai yn gwneud hynny a rhai ddim. Dywedodd ei fod yn credu na fyddai ymweliadau rheolaidd â'r safleoedd hynny yn ormod i'w ofyn.[83]

**91.** Dywedodd Prif Weithredwr newydd HCC wrth yr Aelodau ei fod wedi treulio ei drydydd diwrnod yn ffonio'r holl randdeiliaid gwahanol a phobl sy'n cymryd rhan, gan gynnwys proseswyr, i geisio trefnu cyfarfodydd. Ac ers hynny, mae wedi bod yn ceisio gwneud popeth yn ei allu i geisio'u cwrdd, ac mae wedi cwrdd â llawer ohonynt.[84] Pan ofynnwyd iddo am dystiolaeth yr oedd y Pwyllgor wedi'i chael yn dangos bod y berthynas rhwng HCC a rhanddeiliaid dan straen a bod ymgysylltu â phroseswyr wedi bod yn brin, dywedodd fod hyn yn rhywbeth y byddai'n ei gywiro.[85]

## Ein barn ni

> Clywsom rai pryderon gwirioneddol gan dalwyr yr ardoll ynghylch sut mae HCC yn ymgysylltu â nhw. Does dim dwywaith nad yw'r aflonyddwch sydd wedi bod yn effeithio ar y sefydliad yn ddiweddar wedi helpu'r sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen blaenoriaethu cynyddu ymgysylltu, a chan hynny, hyder talwyr yr ardoll yn HCC. Rydym hefyd yn cytuno â'r farn y dylai HCC fod yn ymweld yn rheolaidd â'r nifer fach o ladd-dai mawr yng Nghymru.

[81] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 37
[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 37
[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 36
[84] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 206
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 204

Roeddem yn falch o glywed bod y Prif Weithredwr wedi ymrwymo i ddyfnhau ymgysylltu â'r sector. Er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo yn y nod hwn, mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod ef, a'i dîm, yn siarad â holl ystod talwyr yr ardoll ac yn cwrdd â nhw lle y maent. Credwn y dylai ymgysylltu â'r sector fod yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol ac yn elfen allweddol o'i Weledigaeth newydd ar gyfer 2030.

**Casgliad 3.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod gwaith ar hyn ar y gweill i wella ymgysylltiad HCC â rhanddeiliaid. Rhaid i HCC gryfhau ei waith cyfathrebu ac ymgysylltu â thalwyr yr ardoll. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i HCC gwrdd â thalwyr yr ardoll lle y maent e.e. trwy fynd i arwerthiannau da byw ac yn ymweld â lladd-dai.

# 7. Hyrwyddo cig coch

## Effaith gwaith HCC mewn digwyddiadau

**92.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cododd Dunbia bryderon ynghylch yr effaith yr oedd HCC wedi'i chael gyda'i waith ar ddigwyddiadau:

> *"HCC marketing budgets have often been allocated to events that have made little or no impact on red meat sales, suggesting that these funds could be better utilised in more established markets where Welsh Lamb and Beef are already recognised."*

**93.** Dywedodd HCC wrth y Pwyllgor mai'r mesur y mae'n ei ddilyn i ddeall digwyddiadau rhyngwladol yw nifer y cysylltiadau a wnaed a photensial y cysylltiadau hynny. Dywedodd fod potensial yn seiliedig ar ofyn i'r bobl hynny sy'n cysylltu â HCC yn y digwyddiadau hynny, 'Faint o gig ydych chi'n ei brynu?' a bod hynny'n rhoi synnwyr i chi o raddfa'r galw sy'n bodoli.[86]

**94.** Rhoddodd enghraifft o gynhadledd Gulfood yn un o wledydd y Gwlff, pan lwyddodd i wneud 49 o gysylltiadau, ac yn bwysicach fyth, yn yr enghraifft hon yn benodol, arweiniodd un o'r cysylltiadau hynny at fusnes ar unwaith, sy'n newyddion da, a dywedodd fod HCC bellach yn un o'r proseswyr sydd wedi'i restru gyda manwerthwr ar-lein yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, ac nad yw hynny'n rhywbeth sydd wedi digwydd o'r blaen.[87]

**95.** Hefyd, tynnodd sylw at y canlynol:

> *"At those international events, it isn't just about creating new opportunities. In those markets there are existing clients, and client maintenance is incredibly important, and you can't do that unless you're there and present and having those conversations."*[88]

[86] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 224
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraffau 225
[88] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 226

## Effaith gweithgareddau hyrwyddo ac ymgyrchoedd marchnata

**96.** Pan gafodd ei holi am sut mae'n dadansoddi gwerth am arian ac effaith y gweithgareddau y mae'n eu gwneud, dywedodd HCC y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"the difficulty we have is we don't sell things, so I don't have a ledger to actually compare one to the other, which is one of my frustrations, but it is what it is. The reality is that the activity that we undertake is always to increase the perception of the brand, and it's always to increase the propensity to purchase. Now, having more foothold, i.e. more people walking through the stores, is by definition going to effectively have more people buying. If you ask me how many, I can't tell you."*[89]

**97.** Pan ofynnwyd iddo am ddefnyddio mesurau dirprwyol, rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog enghraifft lle'r oedd HCC wedi gweithio gyda Sky ac archfarchnad i fesur canlyniadau. Dywedodd y canlynol:

> *"They did it via loyalty cards and Sky Adsmart, and the campaign was to target … specific households who had not purchased Welsh lamb brand over the previous six months there. So, the growth secured from this directly was an increase in sales of 24 per cent in Wales, 21 per cent in England. Fifty per cent of that growth was secured from consumers that had previously been purchasing from rival competitive brands outside of Wales. So, I think it's those sorts of proxy indicators that give us the confidence that they're doing the right thing."*[90]

## A yw HCC yn eiriolwr cryf dros y diwydiant?

**98.** Yn ei bapur awgrymodd Kepak mai rôl allweddol bwrdd ardoll yw:

> *"communicate the good work being done by farmers, generating respect for the sector and helping Government to understand the key role that livestock farmers in Wales play. This communication work has been successful in lamb, but less so for beef where global issues*

[89] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 212
[90] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 28

> *relating to sustainability have highlighted the lack of understanding in this area."*[91]

**99.** Ategodd yr Undebau Ffermio rai o'r pryderon hyn. Pan ofynnwyd i NFU Cymru a oedd HCC wedi bod yn chwarae'n ddiogel yn hytrach na dadlau'n wirioneddol dros y sector cig coch, dywedodd y canlynol:

> *"I think in terms of 'The Welsh Way', the document they produced back in 2021 or so, in terms of sustainability, I think that really gave us a platform where we could really push and move on. I'm not saying it's necessarily playing safe as such in terms of what it's done. It has been an extremely challenging and turbulent time in terms of marketing and promotion. For example, if you just look at the UK market, COVID and such saw fundamental changes, really, in terms of the way that consumers buy and purchase meat. The food service sector was huge in terms of added value pre COVID, but now you're seeing a lot more return to supermarkets and people buying and dining out at home as such, really."*[92]

**100.** Aeth NFU Cymru ymlaen i esbonio bod pawb yn siŵr bod ganddynt y bwyd o'r ansawdd uchaf, mwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd, ac i'r hinsawdd, yn y byd. Dywedodd ei fod yn gweld cyfleodd enfawr yn hyn o beth, a'i fod am sicrhau ei fod yn gwneud y gorau o ran hynny. Ond dywedodd ei fod yn frwydr gyson, mewn gwirionedd, o ran cael y cyllid angenrheidiol hwnnw i allu cyflawni popeth yr ydych yn dymuno ei gyflawni.[93]

**101.** Tynnodd FUW sylw at nifer o heriau sy'n wynebu'r diwydiant gan ddweud fod pwysau i leihau cymeriant cig, er enghraifft, gofynion amgylcheddol, gofynion defnydd tir. Dywedodd fod nifer yr heriau sy'n wynebu'r sector cig coch yn cynyddu oherwydd y ffordd y mae datblygu polisi yn mynd.[94]

**102.** Mewn ymateb i honiadau nad oedd HCC wedi bod yn ymladd y gornel dros gynhyrchwyr cig coch yn y ffordd yr oedd yn ei wneud yn y gorffennol, dywedodd y canlynol wrth y Pwyllgor:

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, Kepak
[92] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 77
[93] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 79
[94] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 81

> *"… my vision of HCC is one that actually works on behalf of the industry … as a conduit to not only help develop the industry and promote the product, but also to influence the powers that be and inform the powers that be what the effect of potential policies could be. So, I'm a very strong defender of the industry."*[95]

**103.** Tynnodd sylw hefyd at y gwaith yr oedd wedi bod yn ei wneud ar y ford gron Weinidogol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Panel Adolygu fel maes allweddol lle y mae HCC wedi treulio dyddiau lawer mewn cyfarfodydd, yn ymgynghori, i ddangos gwerth a theilyngdod ei ddiwydiant, a hefyd yr amgylchedd anodd a chymhleth gwirioneddol a fydd yn dod i'r amlwg os nad yw'n cael y cydbwysedd yn iawn yn y dyfodol.[96]

## Ein barn ni

Rydym yn pryderu nad oes gan bob rhanddeiliad ffydd yn effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo HCC. Roeddem hefyd yn pryderu bod llawer o'r dystiolaeth a roddwyd yn dangos mesurau o gamau gweithredu HCC ond nid y canlyniadau penodol e.e. nid oedd yn dangos a oedd wedi cynyddu gwerthiannau cig coch Cymru na sut yr oedd wedi gwneud hyn.

Gan mai hyrwyddo cig coch yw prif nod y busnes, mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i HCC weithio'n galetach i sicrhau y gall ddangos tystiolaeth o'r effaith y mae'n ei chael. Roedd gennym ddiddordeb yn yr enghraifft a ddisgrifiwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog lle'r oedd HCC wedi defnyddio data cardiau teyrngarwch archfarchnadoedd i ddadansoddi effeithiolrwydd ymgyrch. Gallai gwaith pellach o'r fath helpu HCC i ddeall a mireinio ei effaith a chryfhau hyder y diwydiant yn HCC a'i ddulliau.

Mae gan gig Cymru enw da am ei safonau lles a chynaliadwyedd. Rydym yn teimlo bod hwn yn faes y dylai HCC fod yn ei ddilyn ac yn ei hyrwyddo'n fwy gweithredol.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i HCC sicrhau ei fod yn mesur effaith gweithgareddau hyrwyddo drwy ddata pendant a chymaradwy a fydd yn dangos canlyniadau nid gweithgareddau yn unig. Un opsiwn i gyflawni hyn fyddai adeiladu ar y gwaith y mae wedi'i wneud gyda manwerthwyr ar ddefnyddio data cardiau teyrngarwch i

[95] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 109
[96] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 243

ddeall effaith uniongyrchol ei waith. Dylid cyfleu manylion y mesuriad hwn a'r canlyniadau mewn modd clir ac agored i dalwyr yr ardoll.

# 8. Strategaeth ar gyfer y dyfodol

**104.** Mae gwefan HCC yn esbonio:

> *"Gosodir pwrpas a blaenoriaethau strategol HCC, sydd wedi'u tanategu gan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, yn y ddogfen 'gweledigaeth'. Mae hon yn ddogfen bwysig sy'n gosod y sylfaen i adeiladu ar ddyfodol y diwydiant ac mae'n lasbrint i HCC i gefnogi ac uno pob elfen o'r sector a'r gadwyn gyflenwi."*[97]

**105.** Mae'r wefan yn mynd ymlaen i esbonio bod y Weledigaeth Cig Coch i Gymru[98] wedi'i datblygu gyda'r diwydiant a bydd yn para hyd at ddiwedd mis Ebrill 2026, yn unol â thymor y Senedd.[99]

**106.** Mae HCC wrthi'n datblygu ei ddogfen Gweledigaeth nesaf – Gweledigaeth 2030. Mae HCC wedi dechrau ymgynghori gydag arolwg. Fel rhan o lansiad yr arolwg, dywedodd y Prif Weithredwr:

> *"Wrth i ni edrych at ddiwedd y weledigaeth bresennol, mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer y nesaf. Rwyf wedi cyfarfod sawl grŵp o randdeiliaid allweddol i ddechrau'r drafodaeth yma'n ddiweddar, a'r arolwg yw'r cam nesaf i gasglu barn y diwydiant ar yr heriau a'r blaenoriaethau, a beth gall HCC ei wneud i'w gefnogi.*
>
> *Mae'r arolwg yn rhan o gynllun ymgysylltu ehangach a gaiff ei gwblhau yn ystod 2025, a fydd yn cynnwys cyfarfodydd a phresenoldeb HCC mewn marchnadoedd da byw a digwyddiadau, a'r cyntaf yw digwyddiad NSA Welsh Sheep wythnos yma [dydd Mercher 21 Mai] ar Fferm Tregoyd, Aberhonddu. Gofynnwn i dalwyr ardoll ddod i siarad efo ni mewn digwyddiadau, neu lenwi ein holiadur ar-lein i gael dweud eich dweud. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru yn cyfrannu at y broses fel bod HCC yn gwbl ymwybodol o'r heriau cymhleth o fewn y diwydiant."*[100]

[97] HybuCig.cymru Gweledigaeth 2030
[98] Cyfeirir ati weithiau fel Gweledigaeth 2025
[99] HybuCig.cymru Gweledigaeth 2030
[100] HybuCig.cymru HCC yn gwrando ar randdeiliaid i greu gweledigaeth i'r dyfodol

**107.** Mae HCC wedi datgan: "Cyhoeddir Gweledigaeth 2030 erbyn gwanwyn 2026 yn dilyn cytundeb gan Fwrdd HCC a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru"[101].

**108.** Casglodd y Pwyllgor ei dystiolaeth cyn i HCC lansio ei waith ymgysylltu ar Weledigaeth 2030. Clywodd alwadau i sicrhau bod ymgynghoriad priodol yn rhan o'r broses. Dywedodd FUW y canlynol:

> *"hopefully they'll consult with industry bodies and levy payers now throughout that process. And as I said earlier on that, to us, is crucial, to get the levy—to rebuild this relationship, really, between the levy board and levy payers so that, for the next five years, we're all working towards the same goal. And keeping that relationship going throughout that process will be crucial, rather than doing a process of six months' consultation, for example, to come up with a vision and then seeing a dip; it's got to be a continuous conversation."*[102]

**109.** Dywedodd NFU Cymru:

> *"it is a really opportune time for HCC to come out to the industry to discuss their priorities for the coming years and, really, for our members who are levy payers to be able to strongly input and, hopefully, shape that new strategic vision going forward, because, as we've both alluded to, the challenges at the moment are immense for the red meat industry. And whilst there are challenges, we think that there are great opportunities for the Welsh red meat sector as well, and we've got to make sure that we capitalise on those and improve productivity and efficiency on farms in Wales, and really build and grow markets that we've got at home and abroad for PGI Welsh beef, lamb and pork."*[103]

**110.** Anogodd Kepak HCC hefyd i gynnal ymgynghoriad priodol. Dywedodd wrth yr Aelodau y dylai HCC fod yn ymgynghori â'r undebau ffermio, y sector prosesu, a bod gan bob un ohonynt sefydliadau cynrychioladol, ac mae mor hawdd â chynnal cyfarfod ac ymgysylltu a siarad â phobl. Dywedodd yn aml iawn fod y

[101] HybuCig.cymru Gweledigaeth 2030
[102] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 84
[103] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Mawrth 2025, Paragraff 86

pethau gwerthfawr hynny yn dod gan bobl na fyddech yn meddwl mewn gwirionedd a fyddai'n codi'r pethau hynny.[104]

**111.** Fodd bynnag, rhybuddiodd yn erbyn addo gormod, gan ddweud fod cylch gwaith HCC yn eang iawn, ac os ydych chi'n cymharu hynny â'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r cyllid sydd ar gael, dywedodd y byddai'n cwestiynu a yw'n bosibl cyflawni hynny.[105] Aeth ymlaen i ddweud nad oes diben cael gweledigaeth oreurog os nad oes gobaith o'i chyflawni byth.[106]

**112.** Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog bwysigrwydd HCC yn datblygu ei weledigaeth newydd ac y gallai cyfleoedd ariannu posibl gan Lywodraeth Cymru ddeillio o hynny. Awgrymodd y canlynol:

> *"HCC will feel, on the back of getting the vision statement right and getting the framework of operation between us and Government, compelled to come back to us and to say, 'Part of those wider imperatives around sustainability in the red meat sector, that's your role, Welsh Government. We need to be working with you on it and to come back in terms of funding.' But I don't want to pre-empt that because I think that work needs to be done now in the months ahead".*[107]

**113.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"... I think we need to get the two together. Get the vision set out of what they're going to do in the years up to 2030, define that in what their operational approach will be with that, and then that allows us to get into a discussion with them to ask, 'What role does Welsh Government have within this?' And there are ways in which they can do this."*[108]

**114.** Awgrymodd swyddog a oedd gyda'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd y gallai HCC chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mai'r gofod y mae'n meddwl sydd fwyaf diddorol yw beth yw'r rhwydwaith cymorth a chyflwyno y bydd ei angen ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedodd ein

[104] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 57
[105] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 53
[106] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Mawrth 2025, Paragraff 55
[107] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 105
[108] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 109

bod yn gwybod y bydd llawer o gyngor ac arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer y diwydiant ffermio. Dywedodd ein bod yn gwybod y bydd angen gwneud gwaith i gysylltu'r arferion ffermio cynaliadwy â brand bwyd a diod Cymru. Dywedodd mai'r mathau hynny o feysydd yw'r rhai y byddai ganddo ddiddordeb mawr mewn clywed gan HCC amdanynt fel rhan o'r gwaith ymgysylltu y mae HCC yn ei wneud ar gyfer datblygu'r weledigaeth newydd.[109]

## Ein barn ni

Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio'n agos â HCC i ddatblygu ei weledigaeth newydd. Rhaid i hyn gynnwys datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cryf, sicrhau bod HCC yn gwneud gwahaniaeth clir ac amlwg a'i fod yn cynhyrchu gwerth am arian i dalwyr yr ardoll. Rhaid i ymgynghoriad HCC fod mor gynhwysol â phosibl. Rhaid iddo sicrhau ei fod yn ystyried anghenion rhanddeiliaid wrth ymgysylltu â nhw a rhaid i HCC gwrdd â rhanddeiliaid lle y maent, a pheidio â disgwyl iddynt ddod i HCC.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a HCC sicrhau bod lleisiau'r diwydiant yn cael eu cynrychioli'n dda yn eu gwaith i ddiweddaru Cytundeb Fframwaith HCC. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r diwydiant 'lle y maent' i sicrhau ei bod yn clywed pob llais, nid dim ond y rhai sydd â'r amser a'r gallu i ymgysylltu'n hawdd â Llywodraeth Cymru.

[109] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Mai 2025, Paragraff 106

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **12 Mawrth 2025** | **Dylan Morgan, Pennaeth Polisi,**<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU)<br>**Gareth Parry, Pennaeth Polisi,**<br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| **27 Mawrth 2025** | **Prys Morgan, Cyfarwyddwr Caffael,**<br>St Merryn Merthyr, Kepak<br>**José Peralta, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Hybu Cig Cymru<br>**Catherine Smith, Cadeirydd,**<br>Hybu Cig Cymru |
| **7 Mai 2025** | **Huw Irranca-Davies MS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig a gwybodaeth ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

## Tystiolaeth ysgrifenedig

| Sefydliad | Dyddiad y cyfarfod |
|---|---|
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU) | 12 Mawrth 2025 |
| Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) | 12 Mawrth 2025 |
| Dunbia Llanybydder | 27 Mawrth 2025 |
| Kepak | 27 Mawrth 2025 |
| Hybu Cig Cymru | 27 Mawrth 2025 |
| Llywodraeth Cymru | 7 Mawrth 2025 |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Sefydliad | Dyddiad |
|---|---|
| Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw Cymru (LAA) | 11 Mawrth 2025 |
| National Sheep Association (NSA) | 11 Mawrth 2025 |
| Association of Independent Meat Suppliers (AIMS) | 13 Mehefin 2025 |